**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Hydref 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd R Williams

**Zoom**

Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd W Owen

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Y Cynghorydd D Owen-Jones

**Zoom**

Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd K Webb

## 86 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan a J Bonetto.

## 87 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

5. CAIS RHIF: 22/0265.
Y Cynghorydd Gareth Jones, Buddiant Personol, “Mae'r siaradwr cyhoeddus yn ffrind personol”.

11. CAIS RHIF: 22/0510.
Nododd y Cynghorydd Wendy Lewis y buddiant personol a rhagfarnllyd canlynol: “Mae fy mrawd yn berchen ar eiddo sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ac yn byw yno”.

**88 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

**89 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**90 COFNODION 18.08.22**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Awst 2022 yn rhai cywir.

**91 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**92 CAIS RHIF: 22/0510**

**Dymchwel y warws presennol ac adeiladu bloc o 16 o fflatiau fforddiadwy gyda mannau parcio ac amwynder cysylltiedig. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig sy'n cynnwys paneli solar ar y prif do ar 19/05/22, derbyniwyd Tystysgrif Perchnogaeth 'C' ar 04/08/22, derbyniwyd dyluniadau diwygiedig, cynlluniau llawr, cynllun y safle, manylion ynghylch goleuadau a thrawstoriad ychwanegol ar 08/08/22) W R BISHOP AND CO FRUIT AND VEGETABLE, HEOL PENRHIW-FER, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8EY.**

(Ar ôl datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn y cais uchod (Cofnod Rhif 86), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Geraint John (Asiant)
- Alun Taylor (Gwrthwynebydd)
- Peter Marchant (Gwrthwynebydd)
- Michael Coombs (Gwrthwynebydd)
- Victoria Higgins (Gwrthwynebydd)
- Shawn Stevens (Gwrthwynebydd)

Bu'r Asiant Geraint John yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Webb a D Owen-Jones, nad ydyn nhw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi eu gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Rhannodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law ar ran Cyngor Cymuned Tonyrefail a oedd yn gwrthwynebu'r cais. Cyfeiriodd at ail lythyr 'hwyr' a ddaeth i law oddi wrth y siaradwr cyhoeddus Michael Coombs (Gwrthwynebydd) a oedd yn cynnwys tri llun.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**93 CAIS RHIF: 22/0819**

**Estyniad deulawr y tu cefn i'r adeilad ac estyniad llawr cyntaf i ochr yr adeilad (Cais 21/1691/10 wedi'i ailgyflwyno) 3 CILGANT PEN-Y-BRYN, PONTYPRIDD, CF37 4AD.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Nish Amin (Ymgeisydd)
- Ann Davies (Gwrthwynebydd)
- Iwan Davies (Gwrthwynebydd)

Bu'r Ymgeisydd Nish Amin yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried cynnal ymweliad â'r safle.

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Cynllunio at lythyr 'hwyr' a ddaeth i law oddi wrth breswylydd cyfagos a oedd yn gwrthwynebu'r cais. Roedd cynnwys y llythyr eisoes yn rhan o adran Cyhoeddusrwydd yr adroddiad.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**(Nodwch:** Ar y pwynt yma – 4:31pm – gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Owen y cyfarfod)

**94 CAIS RHIF: 22/0265**

**Adeiladu llawr caled ar gyfer lleoli carafán a garej ar wahân newydd - cais ôl-weithredol. 52 STRYD LLEWELYN, TRECYNON, ABERDÂR CF44 8HU.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Louise Avenell (Gwrthwynebydd). Cafodd hi bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ei gais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth hir, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn oherwydd y byddai'r llawr caled a'r garej newydd yn cael effaith ar yr eiddo cyfagos, gan edrych drosto.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**(Nodwch**: Cymerodd y Pwyllgor doriad o bum munud ar yr adeg hon).

**95 CAIS RHIF: 22/0743/09**

**Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig cartref gofal Dosbarth C3(b) (ar gyfer hyd at chwe phreswylydd yn byw yn un aelwyd gyda gofal yn cael ei ddarparu) WINDY RIDGE, TREM HYFRYD, YNYS-Y-BWL, PONTYPRIDD, CF37 3PF.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Damian Barry (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 8 Medi 2022, pan benderfynodd yr Aelodau i ohirio dod i benderfyniad am y cais tan gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol (Cofnod 80).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**96 CAIS RHIF: 22/0363**

**Newid defnydd Parlwr Angladdau Llawr Gwaelod i Siop Fanwerthu a throsi'r Fflat Llawr Cyntaf yn fflat dwy ystafell wely THE CO OPERATIVE FUNERALCARE, STRYD FAWR, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8PL.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon am y datblygiad arfaethedig. Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried cynnal ymweliad â'r safle.

Rhannodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law oddi wrth Aelod Lleol y Fwrdeistref Sirol, y Cynghorydd D Grehan, a oedd yn nodi pryderon am ddiogelwch y priffyrdd.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**97 CAIS RHIF: 22/0587**

**Gosod llifoleuadau a ffensys terfyn newydd YSTAFELLOEDD NEWID PENYRENGLYN, STRYD BAGLAN, TREHERBERT, TREORCI, CF42 5AW.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**98 CAIS RHIF: 22/0815**

**Estyniad deulawr i'r ochr a'r cefn. 9 HEOL JOHNSON, TONYSGUBORIAU, PONT-Y-CLUN, CF72 8HR.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**99 CAIS RHIF: 22/0868**

**Cais cynllunio llawn arfaethedig i ddymchwel hen Ysgol Fabanod y Porth ac ailddatblygu'r safle ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Geotechnegol a Geoamgylcheddol wedi'i Ddiweddaru – fersiwn 3 ar 17/08/2022) TIR YN HEN YSGOL FABANOD PORTH, STRYD MARY, PORTH, CF39 9UH.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth hir **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn yn ddarostyngedig i gwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw yn unedau fforddiadwy, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

**100 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 29/08/2022 tan 23/09/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.49 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**